Dyddiad cyhoeddi: 23 Chwefror 2017

Cofnod cyflawn o gyfrifon Cyngor Cymuned Mawr ac Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 7 Chwefror 2017, rwyf yn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 3 Chwefror 2017, sef gwybodaeth am y canlynol:

i) cofnod cyflawn o gyfrifon Cyngor Cymuned Mawr; a

ii) cofnod cyflawn o gyfrifon Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr.

Eitem (i)

O ran eitem (i) o'ch cais, atodir y cyfrifon a ddelir gennym ar gyfer Cyngor Cymuned Mawr. Rwyf wedi golygu rhan fach o'r wybodaeth o'r dogfennau a ddarperir gan fy mod o'r farn bod yr eithriad o dan adran 40(2) (gwybodaeth bersonol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gymwys. Mae'r adran hon yn darparu eithriad absoliwt ac mae'n gymwys gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

Eitem (ii)

Nid oes gennym gyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr gan nad ydym yn archwilio'r endid hwn.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno, cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.org.uk
Ffôn: 0303 123 1113
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni cyn gwneud cais o'r fath. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,